

# Athro Uwchradd

## Cyflwyniad

Mae athrawon uwchradd yn addysgu myfyrwyr 11 i 19 oed (neu un grwp oedran yn yr ystod hon). Mae'r gwaith yn cynnwys paratoi a chynllunio gwersi, marcio gwaith, ysgrifennu adroddiadau myfyrwyr a mynd i gyfarfodydd a nosweithiau rhieni.

## Adwaenir hefyd fel

- Athro, Ysgol Uwchradd

## Gweithgareddau Gwaith

Fel Athro Uwchradd, byddwch yn addysgu myfyrwyr 11 i 19 oed. Fodd bynnag, gallech weithio mewn ysgolion sy'n ymddrin ag ystod oedran lai, megis 11-14, 11-16 neu 16-19.

Byddwch fel arfer yn arbenigo mewn un pwnc, ond gallech addysgu nifer o bynciau cysylltiedig, megis Saesneg a drama. Mae'n rhaid i chi hefyd fod yn barod i gyflenwi ar gyfer gwersi athrawon mewn meysydd pwnc eraill.

Wrth addysgu grwpiau blwyddyn hyn, rydych yn fwy tebygol o gael dosbarth o fyfyrwyr â galluoedd tebyg.

Gall dulliau addysgu gynnwys:

- gwaith grwp bach
- prosiectau
- trafodaethau
- dadleuon.

Mae adnoddau'n cynnwys:

- deunyddiau clyweledo
- , byrddau gwyn rhyngweithiol
- gemau dysgu ar-lein.

Mae defnyddio cymysgedd o weithgareddau'n helpu i ysgogi diddordeb, dysgu a dychymyg; datblygu amrywiaeth o sgiliau; a diwallu anghenion myfyrwyr sydd â gwahanol ddulliau dysgu.

Yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth, gall gwersi ddigwydd mewn labordai, gweithdai, campfa neu faes chwarae er enghraifft – yn dibynnu ar y pwnc dan sylw. Gallech hefyd defnu ac arwain teithiau maes.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- Paratoi a chynllunio gwersi.
- Marcio gwaith a rhoi adborth.
- Creu neu addasu adnoddau gwersi.
- Mynd i gyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni.
- Gosod a gorfodi safonau ymddygiad.
- Nodi disgyblion sy'n tangyflawni a rhoi cymorth ychwanegol.

Mae rhai athrawon hefyd yn diwtoriaid dosbarth, sy'n cynnwys dyletswyddau megis cymryd cofrestr, darparu gwybodaeth gyffredinol a rhoi arweiniad.



Fel Athro Uwchradd efallai y byddwch yn goruchwyllo gwaith un neu fwy o gynorthwyyr addysgu.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel Athro Uwchradd, bydd angen:

- Y gallu i annog, symbylu ac ysbrydoli'ch myfyrwyr.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Amynedd a thact.
- Y gallu i gadw disgyblaeth ac ymdrin ag ymddygiad heriol.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Egni, brwdfrydedd a hunanddisgyblaeth.
- Y gallu i weithio'n dda dan bwysau.
- Sgiliau TGCh.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog** Mae Athrawon yn y sector addysg gwladol yn cael eu talu ar raddfa yn unol â'u cymwysterau, eu profiad a'u cyfrifoldebau. Mae'r cyflogau uchaf ar gael mewn ysgolion yng nghanol Llundain. Rhoddir cyfraddau cyflog (y flwyddyn) bras isod:

- Mae athrawon anghymwys yn ennill £17,000 - £27,000 y flwyddyn
- Mae Athrawon cymwys yn ennill £23,000 i £29,500 y flwyddyn
- Gyda phrofiad, gall hyn godi i £36,500 i £48,000 y flwyddyn

Gall athrawon â chyfrifoldeb rheoli ennill cyflog uwch na hyn. **Oriau gwaith**

Mae athrawon fel arfer yn gweithio o 8:30 am neu 9 am i 3:30 pm neu 4 pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio oriau ychwanegol – yn marcio gwaith, yn paratoi gwersi ac yn mynd i gyfarfodydd. Maent yn aml yn gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnos i baratoi gwersi a marcio gwaith. **Ble gallwn i weithio?** Y cyflogwyr yw ysgolion gwladol a phreifat. Ceir cyfleoedd hefyd i addysgu mewn gwledydd eraill. Mae rhai athrawon yn ychwanegu at eu hincwm trwy addysgu'n breifat, marcio arholiadau cenedlaethol neu ysgrifennu gwerslyfrau. Yng Nghymru mae galw uchel am addysg cyfrwng Cymraeg, felly os ydych yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith, gallech wella eich gobeithion o gael swydd addysgu drwy hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallech hefyd gael cymorth ariannol drwy gynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg. Holwch ddarparwr eich cwrs. **Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?**

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu gan awdurdodau lleol ac yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys The Guardian a The Times Educational Supplement (TES). Mae hefyd byrddau swyddi ar gael, er enghraifft, eTeach.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

### Llwybrau mynediad

I ddod yn athro ysgol uwchradd, mae angen fel arfer i chi gyflawni Statws Athro Cymwysedig trwy addysg gychwynnol athrawon (ITE). Mae sawl llwybr gwahanol. Yng Nghymru, bydd safonau proffesiynol newydd ar gyfer myfyrwyr sy'n cychwyn rhaglen ITE o Fedi 2019 ymlaen.

**Profiad Gwaith** I ddechrau, bydd darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr eisiau gweld tystiolaeth bod gennych y sgiliau a'r cymhelliant gofynnol i lwyddo fel Athro. I gyflawni hyn, gall fod angen rhyw fath o brofiad arnoch o weithio gyda phlant/myfyrwyr o oed perthnasol. Weithiau, mae angen o leiaf bythefnos o brofiad. Ond sut rydych chi'n cael profiad gwaith mewn ysgol neu goleg? Dyma rai atebion posibl:

- Siaradwch ag unrhyw gysylltiadau sydd gennych mewn ysgolion e.e. teulu neu ffrindiau.
- Siaradwch ag ysgolion yn uniongyrchol a gofyn a allwch arsylwi dosbarth neu gysgodi athro.
- Ymunwch â Rhaglen Profiad Ysgol. Mae'r rhain wedi'u hanelu at raddedigion a myfyrwyr flwyddyn olaf. Gellir trefnu lleoliadau am rhwng un a 10 diwrnod mewn ysgol.
- Efallai y gallwch chi gael profiad gwerthfawr trwy weithio mewn rôl gefnogol mewn ysgol, e.e. Technegydd Labordy, Cynorthwydd Addysgu, Mentor Dysgu.
- Gweithiwch fel Mentor Gwirfoddol. Mae cyfleoedd i bobl weithio'n unigol gyda myfyrwyr, gan eu helpu nhw yn eu bywyd ysgol. Byddai hyn yn brofiad gwyh i unrhyw ddarpar athro.

## Israddedigion

Mae nifer fach o raddau BEd, mewn ystod gyfyng o bynciau. Mae'r rhain yn arwain at Statws Athro Cymwysedig. Yn dibynnu ar y pwnc, mae hefyd nifer fach o raddau BA/BSc sydd â Statws Athro Cymwysedig.

## Ôl-raddedigion

Mae'r rhan fwyaf o bobl fodd bynnag yn dilyn gradd berthnasol gyda TAR yn y pwnc maent yn dymuno'i addysgu. Mae cyrsiau fel arfer yn para blwyddyn amser-llawn a dwy flynedd ran-amser. Byddai angen i chi ymgeisio trwy Hyfforddiant Athrawon UCAS. Mae hyd at £20,000 ar gael i gymell graddedigion sydd â graddau penodol i hyfforddi fel athro yng Nghymru.

Mae hefyd yn cynllun sy'n seiliedig ar gyflogaeth School Direct: byddwch yn hyfforddi wrth weithio mewn ysgol. Y disgwyliad yw y byddech yn mynd i weithio yn yr ysgol neu'r grwp o ysgolion lle y gwnaethoch hyfforddi, er na ellir gwarantu y bydd cyflogaeth ar gael ar ddiwedd eich hyfforddiant. Nid yw hyn yn wir am Gymru.

Yn Lloegr, gallwch hefyd hyfforddi mewn ysgol ar ôl eich gradd trwy hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n canolbwyntio ar yr ysgol. Cyflwynir y rhaglenni hyn gan grwpiau o ysgolion a cholegau cyfagos a'r nod yn aml yw bodloni anghenion addysgu lleol.

Yng Nghymru, gallwch hyfforddi mewn swydd mewn ysgol a gynhelir drwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) ond mae lleoedd yn brin ac yn ddibynnol ar anghenion recriwtio lleol.

Hefyd yng Nghymru, mae angen bod gan bob ymgeisydd ar gyfer hyfforddiant athrawon radd B mewn Saesneg a Mathemateg. Gall fod angen TGAU gradd C/4 neu uwch yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar fyfyrwyr sy'n hyfforddi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Teach First yn elusen sy'n recriwtio ac yn cefnogi graddedigion i addysgu mewn ysgolion mewn cymunedau incwm isel mewn nifer o ranbarthau'r DU. Mae'r rhaglen yn cymryd dwy flynedd i'w chwblhau.

## Hyfforddiant

Mewn cyflogaeth, mae'n rhaid i athrawon sydd newydd gymhwyso gyflawni cyfnod ymsefydlu am dri thymor, fel arfer mewn un flwyddyn ysgol, er mwyn parhau i addysgu mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru a Lloegr. Gall fod yn bosibl lleihau'r cyfnod ymsefydlu i un tymor os gallwch arddangos profiad sylweddol o addysgu.

## Camu ymlaen yn eich gyrfa

Ceir cyfleoedd i athrawon symud ymlaen i hyfforddi athrawon, swyddi arweiniol, gwaith ymgynghorol, ymchwil addysgol neu arolygu ysgolion.

Gall athrawon ddod yn benaethiaid adran, penaethiaid blwyddyn, neu gydlynwyr anghenion addysgol arbennig neu weithio ym maes arweiniad gyrfaoedd.

## Deddf Adsefydlu Troseddwyr

Mae'r yrfa hon yn eithriad i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi roi gwybodaeth i'ch cyflogwr am unrhyw gollfarnau, rhybuddion, ceryddon neu rybuddiadau sydd wedi darfod neu heb ddarfod, os ydynt yn gofyn i chi wneud. Mae hyn yn wahanol i yrfaoedd eraill lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am gollfarnau sydd heb ddarfod dim ond os gofynnir i chi.

## Cymwysterau

Mae angen i bob ymgeisydd ar gyfer hyfforddiant athrawon ysgol uwchradd feddu ar TGAU (neu gymwysterau cyfwerth cydnabyddedig) ar radd C/4 neu uwch mewn Saesneg iaith a Mathemateg.

Yng Nghymru, mae angen i bob ymgeisydd am hyfforddiant athrawon feddu ar Radd B/6 mewn Saesneg iaith a Mathemateg. Mae athrawon cynradd hefyd angen TGAU gradd C/4 neu uwch mewn gwyddoniaeth. Bydd angen TGAU gradd C/4 neu uwch mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Lloegr, os ydych yn dymuno addysgu yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed), mae'n rhaid i chi feddu ar TGAU (neu

gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) ar radd C/4 neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth.

Os nad oes gennych y TGAU angenrheidiol, efallai y gallech sefyll prawf cyfatebiaeth cyn mynediad; dylech gysylltu â darparwyr cyrsiau unigol i drafod eich sefyllfa cyn gwneud eich cais.

I gyflawni Statws Athro Cymwysedig, mae angen i athrawon dan hyfforddiant lwyddo mewn profion Saesneg a Mathemateg. Bydd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg hefyd yn sefyll prawf llythrennedd yn Gymraeg.

I gael mynediad i BEd, neu BA/BSc gyda SAC, bydd angen i chi fodloni gofynion cymwysterau eraill, yn dibynnu ar y cwrs a'r pwnc. Fel arfer, bydd arnoch angen 2/3 TGAU arall ar radd C/4 neu uwch, ac o leiaf 2 gymhwyster Safon Uwch .

Mae cymwysterau eraill yn lle Safon Uwch yn cynnwys:

- Cymwysterau BTEC lefel 3
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol

Fodd bynnag, mae gofynion cyrsiau'n amrywio, felly gwiriwch wefannau'r colegau/prifysgolion yn ofalus.

I ddilyn cwrs TAR neu lwybr ôl-raddedig yn y gweithle, fel arfer bydd arnoch angen gradd sy'n ymwneud â'r pwnc rydych yn dymuno'i addysgu. Mae rhai prifysgolion yn gofyn bod graddau yn cynnwys o leiaf 50% o'r pwnc rydych yn dymuno'i addysgu.

## Cyfleoedd i Oedolion

### Sgiliau/profiad

I gael mynediad at gyrsiau hyfforddi athrawon bydd angen fel arfer i chi o leiaf fod wedi arsylwi ar wersi mewn ysgol uwchradd prif ffrwd. Ar rai cyrsiau bydd arnoch angen profiad o weithio'n wirfoddol neu'n gyflogedig mewn ystafell ddsbarth uwchradd neu brofiad perthnasol arall gyda phobl ifanc.

### Cyrsiau

Os nad oes gennych y cymwysterau angenrheidiol i gael mynediad at gwrs gradd, efallai gallwch ddechrau cwrs ar ôl cyflawni Cwrs mynediad mewn coleg neu brifysgol. Nid oes arnoch angen unrhyw gymwysterau fel arfer i ddechrau cwrs Mynediad, er y dylid gwirio hyn â darparwr y cwrs.

Mae rhai cyrsiau TAR rhan-amser ar gael dros ddwy flynedd.

### Dysgu o bell

Mae rhai cyrsiau TAR ar gael ar ffurf dysgu hyblyg. Er enghraifft, efallai gallwch hyfforddi trwy ddydysgu o bell gyda chyfuniad o arfer addysgu ar lawr y dosbarth ac astudiaethau ar y campws.

### Hyfforddiant yn y gweithle

Yn lle mynd i'r brifysgol i wneud TAR, gall graddedigion ddilyn llwybr hyfforddiant yn y gweithle. Dyma pryd rydych yn hyfforddi mewn ysgol. Mae llwybrau hyfforddiant yn y gweithle yn cynnwys School Direct, hyfforddiant cychwynnol athrawon yn yr ysgol a'r cynllun a gynigir gan Teach First, ac yng Nghymru drwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) ond mae lleoedd yn brin. Am ragor o wybodaeth ewch i 'Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant'.

### Arian

Edrychwch ar wefan GOV.UK. am wybodaeth am ariannu, neu ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru os ydych yn byw yng Nghymru.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **UCAS Teacher Training**

Gwefan [www.ucas.com/how-it-all-works/teacher-training](http://www.ucas.com/how-it-all-works/teacher-training)

- **Teach First**  
Gwefan [www.teachfirst.org.uk](http://www.teachfirst.org.uk)
- **Department of Education Northern Ireland**  
Irish enquiries  
E-bost DE.DEWebMail@education-ni.gov.uk  
Gwefan [www.deni.gov.uk](http://www.deni.gov.uk)
- **General Teaching Council for Scotland (GTC Scotland)**  
Scottish enquiries  
E-bost gtcs@gtcs.org.uk  
Gwefan [www.gtcs.org.uk](http://www.gtcs.org.uk)
- **GOV.UK**  
UK government services and information  
Gwefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk)
- **Teach in Scotland**  
Scottish enquiries  
E-bost teaching@infoscotland.com  
Gwefan [www.teachinginscotland.com](http://www.teachinginscotland.com)
- **Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Information on Higher Education courses and scholarships through the medium of Welsh)**  
Information on Higher Education courses and scholarships through the medium of Welsh  
E-bost gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk  
Gwefan [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk)
- **Welsh Government Education and Skills Department**  
E-bost customerhelp@gov.wales  
Gwefan [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=en](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=en)
- **Mudiad Meithrin**  
E-bost post@meithrin.co.uk  
Gwefan [www.meithrin.co.uk](http://www.meithrin.co.uk)
- **Student Finance Wales**  
Welsh enquiries  
Ffôn 0845 6028845  
Gwefan [www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk)
- **People Exchange Cymru (PEC)**  
Public sector recruitment portal for Wales  
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales  
Gwefan [www.peopleexchangecymru.org.uk/home](http://www.peopleexchangecymru.org.uk/home)
- **Discover Teaching - Wales**  
Gwefan [www.discoverteaching.wales/](http://www.discoverteaching.wales/)
- **Education Workforce Council Wales**  
Gwefan [www.ewc.wales](http://www.ewc.wales)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Nyrs Feithrin
- Aseswr NVQ
- Goruchwylydd Amser Cinio
- Athro Hanes

- Athro Daearyddiaeth
- Athro Ieithoedd Tramor Modern
- Cynorthwy-ydd Addysgu
- Athro Cerddoriaeth
- Athro Saesneg
- Athro Mathemateg
- Athro Gwyddoniaeth
- Swyddog Lles Addysg
- Gweithiwr Chwarae
- Athro Anghenion Addysgol Arbennig
- Athro Celf a Dylunio
- Athro Dylunio a Thechnoleg
- Athro Blynyddoedd Cynnar
- Athro Addysg Gorfforol
- Athro Cynradd
- Rheolwr Hyfforddi
- Darlithydd Addysg Uwch
- Rheolwr Busnes Ysgolion
- Athro Saesneg fel Iaith Dramor
- Darlithydd
- Athro/Athrawes
- Athro Cymraeg
- Cynorthwydd Meithrin
- Pennaeth